

Busnesau Bach Canllaw i Etholwyr

Mai 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan Senedd Cymru:
www.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6307**

E-bost: GarethDavid.Thomas@Senedd.Cymru

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Gwefan: ymchwil.senedd.cymru

© **Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru Cymru 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Busnesau Bach Canllaw i Etholwyr

Mai 2021

Awduron:

Gareth Thomas

Trosolwg o'r papur:

Bwriad y canllaw hwn yw amlinellu ffynonellau a all roi cymorth, o bosibl, i fusnesau bach newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, a nodi sut i gysylltu â hwy.



Contents

Cymorth busnes mewn perthynas â'r Coronafeirws	1
Cymorth Llywodraeth Cymru	1
Busnes Cymru	1
Banc Datblygu Cymru.....	2
Cynllun Gweithredu ar Ddiswyddiadau (ReAct)	2
SMARTCymru.....	3
Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru.....	4
Cymorth Llywodraeth y DU	4
Banc Busnes Prydain.....	4
Cwmni Start Up Loans	5
Sefydliadau dielw sy'n cefnogi busnesau	6
Busnes mewn Ffocws.....	6
Purple Shoots	6
Cymorth i fentrau cymdeithasol	6
Canolfan Cydweithredol Cymru	6
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	7

Cymorth i entrepreneuriaid benywaidd	8
Chwarae Teg.....	8
Cyllid ar gyfer entrepreneuriaid benywaidd.....	8
Cymorth Awdurdodau Lleol	9
Blaenau Gwent	9
Pen-y-bont ar Ogwr	10
Caerffili	11
Caerdydd.....	13
Sir Gaerfyrddin.....	13
Ceredigion.....	14
Conwy.....	15
Sir Ddinbych.....	15
Sir y Fflint.....	16
Gwynedd.....	16
Ynys Môn.....	18
Merthyr Tudful	18
Sir Fynwy.....	19
Castell-nedd Port Talbot.....	19
Casnewydd.....	20
Sir Benfro.....	21
Powys.....	21

Rhondda Cynon Taf.....	22
Abertawe.....	23
Torfaen	24
Bro Morgannwg	24
Wrecsam	25

Cymorth busnes mewn perthynas â'r Coronafeirws

Mae ein **herthygl ymchwil, sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd**, yn rhoi manylion am gymorth busnes mewn perthynas â'r coronafeirws a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae ffynonellau gwybodaeth defnyddiol eraill yn cynnwys **tudalen cymorth Covid-19 i fusnesau Busnes Cymru a chanfyddwr cymorth busnes coronafeirws** Llywodraeth y DU.

Cymorth Llywodraeth Cymru

Busnes Cymru

Gwefan a gwasanaeth cyngori Busnes Cymru Llywodraeth Cymru yw'r brif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer busnesau sy'n chwilio am gymorth gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill.

Mae'r wefan yn amlinellu'r cymorth busnes y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, yn ogystal â darparu **canfyddwr cyllid** i ddod o hyd i grantiau a benthyciadau posibl sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: businesswales.gov.wales/cy

Ffôn: 0300 060 3000

E-bost: Ffurflen_gyswilt

Mae gwefan Busnes Cymru yn cynnwys adran 'Bwyd a Diod Cymru' wedi'i brandio ar wahân. Mae Llywodraeth Cymru yn rhedeg gwasanaeth cymorth pwrpasol i fusnesau yn y Sector Bwyd a Diod sy'n cynnwys darparu cymorth busnes a chymorth technegol, mynediad at ganolfannau rhagoriaeth a safleoedd gweithgynhyrchu, a chymorth gydag allforion.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy

Syniadau Mawr Cymru yw'r adran ar wefan Busnes Cymru sy'n nodi'r cymorth sydd ar gael i entrepreneuriaid ifanc. Mae'n darparu gwybodaeth am weithdai; bwtcamp i fusnesau; ffynonellau cyngor a chymorth cyffredinol; adnoddau ar

gyfer entrepreneuriaid; a'r Pecyn Syniadau Mawr o gymorth a gynnigir gan Busnes Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://businesswales.gov.wales/bigideas/cy>

Y Gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein (BOSS) yw'r rhan o wefan Busnes Cymru sy'n helpu entrepreneuriaid a busnesau i ddatblygu drwy ddysgu ar-lein. Mae'n cynnwys meysydd allweddol i'w hystyried wrth gychwyn busnes; rheoli eich busnes yn effeithlon; rheoli'r gweithlu; a dylunio a datblygu cynnyrch.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://businesswales.gov.wales/boss/cy>

Banc Datblygu Cymru

Mae Banc Datblygu Cymru yn helpu busnesau bach a chanolig yng Nghymru drwy gynnig buddsoddiadau rhwng £1,000 a £5 miliwn ar gyfer twf masnachol.

Sefydlwyd y Banc Datblygu gan Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn haws i fusnesau gael y cyllid sydd ei angen i ddechrau, cryfhau a thyfu. Mae'r Banc Datblygu yn rheoli **amrywiaeth o gyllid** ar gyfer cychwyn busnes; datblygu ac ehangu busnes; prynu busnes ac olyniaeth rheoli; datblygu menter dechnoleg; a datblygu eiddo.

Mae ganddo hefyd **wiriwr cymhwysedd** y gall busnesau ei ddefnyddio i weld a allant dderbyn cymorth gan y Banc Datblygu.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://developmentbank.wales/cy>

Ffôn: 0800 587 4140

E-bost: gwyb@banccdatblygu.cymru

Cynllun Gweithredu ar Ddiswyddiadau (ReAct)

Caiff y rhaglen ReAct ei hariannu gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r rhaglen yn helpu pobl sydd wedi cael eu diswyddo i ddysgu sgiliau newydd ac yn annog cyflogwyr i recriwtio gweithwyr sydd wedi colli eu swyddi.

Gall cyflogwyr sy'n ystyried recriwtio ac yna'n penodi gweithwyr sydd wedi colli eu swyddi gael cymorth dau becyn:

- Cymorth Recriwtio i'r Cyflogwr - yn talu cyflogwyr sy'n penodi unigolion a gafodd eu diswyddo yn ystod y tri mis diwethaf. Mae'r pecyn hwn yn cynnig hyd at £3,000 sy'n cael ei dalu mewn pedwar rhandaliad fel cyfraniad at gostau cyflog
- Cefnogaeth Hyfforddi'r Cyflogwr - mae hon yn gronfa ddewisol ar wahân sy'n cynnig hyd at £1,000 i gyflogwr ei ddefnyddio i dalu costau hyfforddiant sy'n berthnasol i swydd y sawl y mae wedi'i benodi.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/react>

Ffôn: 0800 028 4844

E-bost: reactenquiries@gov.wales

SMARTCymru

Rhaglen Llywodraeth Cymru yw SMARTCymru a ariennir gyda chefnogaeth Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae'n cefnogi busnesau Cymru i ddatblygu, gweithredu a masnacheiddio cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau newydd. Gall ddarparu cyllid busnes ar bob cam o'r broses arloesi, er enghraifft:

- Dichonoldeb - ymchwilio i hyfywedd syniadau arloesol (hyd at £30,000);
- Gwaith ymchwil diwydiannol - ymgymryd â gwaith ymchwil ymarferol i ddatblygu prawf cysyniad (hyd at £100,000);
- Datblygiad arbrofol - i ddangos canlyniadau gwaith ymchwil ar waith (hyd at £200,000); a
- Chamfanteisio - manteisio ar y cynnyrch neu'r broses newydd yn llwyddiannus (hyd at £ 20,000).

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://businesswales.gov.wales/expertisewales/cy/cymorth-chyllid-i-fusnesau/smartcymru>

Ffôn: 0300 060 3000

Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru

Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru sy'n darparu Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru. Mae'n darparu buddsoddiad cyfalaf i'r sector gwerth rhwng £100,000 a £5 miliwn, gan gynnwys grantiau a chyllid ad-daladwy. Gellir ei defnyddio naill ai i uwchraddio asedau presennol, neu greu asedau newydd o ansawdd uchel yn y sector twristiaeth.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/cyllid>

Ffôn: 0845 010 8020

E-bost: WTIF@gov.wales

Cymorth Llywodraeth y DU

Mae **gwefan Llywodraeth y DU** yn cynnwys ffwythiant '**canfod cymorth busnes**' sy'n galluogi busnesau i ddod o hyd i gymorth a chyllid a gefnogir gan y llywodraeth, gan gynnwys:

- grantiau;
- cyllid a benthyciadau;
- cymorth busnes e.e. mentora, ymgynghoriaeth; a
- chyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig a busnesau newydd.

Gellir addasu'r chwiliad yn seiliedig ar leoliad y busnes, ei faint a'i weithgarwch.

Banc Busnes Prydain

Sefydlwyd Banc Busnes Prydain gan Lywodraeth y DU i wella mynediad at gyllid i fusnesau bach. Mae ganddo ystod o raglenni agored sy'n darparu cymorth ariannol i fusnesau bach, naill ai ar gyfer busnesau newydd neu fusnesau sy'n bodoli eisoes.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.british-business-bank.co.uk/>

E-bost: info@british-business-bank.co.uk

Cwmni Start Up Loans

Mae'r cwmni Start Up Loans yn is-gwmni i Fanc Busnes Prydain. Mae'n darparu benthyciadau a gefnogir gan y llywodraeth i unigolion sydd am ddechrau neu dyfu busnes yn y DU. Gall unigolion fenthyca rhwng £500 a £25,000, gyda pherchnogion neu bartneriaid mewn busnes yn gallu gwneud cais yn unigol am fenthyciadau o hyd at £100,000 ar gyfer busnes. Mae cyfradd llog sefydlog o 6 y cant y flwyddyn, yn ad-daladwy dros gyfnod o rhwng 1 a 5 mlynedd.

Mae'n ofynnol i fusnesau fodloni meini prawf cymhwysedd, gan gynnwys eu bod naill ai'n dechrau busnes newydd, neu wedi bod yn masnachu am lai na 24 mis.

Yn ogystal â chyllid, mae ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn 12 mis o fentora am ddim a chynigion busnes unigryw.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.startuploans.co.uk/>

Ffôn: 0344 264 2600

E-bost: Ffurflen.gyswllt

Sefydliadau dielw sy'n cefnogi busnesau

Busnes mewn Ffocws

Sefydliad dielw yw Busnes mewn Ffocws sy'n cefnogi busnesau i gychwyn a thyfu. Mae'n darparu cymysgedd o wasanaethau am ddim ac ymgynghoriaeth fasnachol i fusnesau. Mae'r gwasanaethau am ddim y mae'n eu darparu yn cael eu hariannu gan y llywodraeth, ac maent yn cynnwys Busnes Cymru, Hybiau Menter Ffocws, Menter Merthyr, Syniadau Mawr Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.businessinfocus.co.uk/cy/>

Ffôn: 01656 868545

E-bost: hello@businessinfocus.co.uk

Purple Shoots

Mae Purple Shoots yn sefydliad cyllid micro dielw ac yn elusen gofrestredig sy'n darparu benthyciadau o hyd at £3,000 i fusnesau bach sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae ei fenthyciadau ar gael i fusnesau newydd a busnesau sefydledig. Y gyfradd llog yw 14.5 y cant y flwyddyn ac mae benthyciadau yn ad-daladwy rhwng 1 a 3 blynedd. Gellir defnyddio'r benthyciadau at ddibenion fel prynu offer; marchnata; adnewyddu adeilad; a chostau cynnal.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://purpleshoots.org/>

Ffôn: 07726 599 267

E-bost: Ffurflen.gyswilt

Cymorth i fentrau cymdeithasol

Canolfan Cydweithredol Cymru

Mae prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru Canolfan Cydweithredol Cymru yn darparu cyngor a chymorth i bobl sy'n ystyried dechrau neu weithredu busnes cymdeithasol a gall ddarparu cymorth dwys un-i-un i fusnesau cymdeithasol ledled

Cymru sy'n edrych i ehangu neu greu swyddi. Mae busnesau cymdeithasol yn cynnwys mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a busnesau sy'n eiddo i gyflogeion.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://cymru.coop/get-our-help/our-projects/busnes-cymdeithasol-cymru/>**Ffôn:** 0300 111 5050

E-bost: Ffurflen.gyswilt

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn rhedeg Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, sy'n cefnogi mentrau cymdeithasol yng Nghymru gydag ystod o gynhyrchion ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys ffynonellau cyllid a weithredir ar y cyd gyda sefydliadau fel Banc Datblygu Cymru. Ymhlith y ffrydiau cyllid sydd ar gael mae'r canlynol:

- [Y Gronfa Datblygu Asedau Cymunedol;](#)
- [Y Gronfa Buddsoddi Cymunedol;](#)
- [Cronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau Cymru](#) (ar gyfer mentrau cymdeithasol); a'r
- [Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol](#)

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.wcva.org.uk/funding/social-investment-cymru>

Ffôn: 0300 111 0124

E-bost: sic@wcva.org.uk

Cymorth i entrepreneuriaid benywaidd

Yn ogystal â'r ffynonellau cymorth a chefnogaeth eraill yn y canllaw hwn, gall entrepreneuriaid benywaidd gael gafael ar nifer o ffynonellau cyngor a chymorth ariannol penodol.

Chwarae Teg

Mae Chwarae Teg yn gweithredu nifer o brosiectau sy'n cefnogi menywod yn y gweithle, neu fusnesau i weithio tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaglenni Cenedl Hyblyg 2 sy'n **gweithio gyda busnesau** i ddod yn gyflogwr Chwarae Teg, a **chyda menywod unigol** i ddatblygu sgiliau a hyder i symud ymlaen yn y gweithle;
- Y gwasanaeth **Cyflogwr Chwarae Teg**, sy'n gweithio gyda busnesau i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau;
- Y rhaglen **LeadHerShip** sy'n rhoi cyfle i fenywod 16-25 oed gysgodi uwch-arweinwyr busnes a gwleidyddiaeth yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://chwaraeteg.com/>

Ffôn: 02920 462745

E-bost: post@chwaraeteg.com

Cyllid ar gyfer entrepreneuriaid benywaidd

Mae NatWest wedi cyhoeddi ei fod yn darparu cyllid wedi'i dargedu i gefnogi busnesau a arweinir gan fenywod yn y DU i wella o ganlyniad i effeithiau'r coronafeirws. Mae benthyciadau a chyllid ar gael i fasnachwyr unigol, partneriaethau a chwmnïau cyfyngedig a arweinir gan fenywod (lleiafswm o 50 y cant o berchnogaeth benywaidd neu fenyw sydd â rôl amlwg ar y Bwrdd).

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.business.natwest.com/business/business-services/women-in-business.html>

Ffôn: 0345 711 4477

Cymorth Awdurdodau Lleol

Mae gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru adran cymorth busnes ar ei wefan er mwyn helpu i ddod o hyd i'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i fusnesau yn yr ardal honno.

Mae manylion cyswllt perthnasol ac enghreifftiau o gynlluniau penodol wedi'u cynnwys isod.

Blaenau Gwent

Cymorth cyffredinol

Mae'r Uned Ddatblygu Economaidd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ymroddedig i helpu busnesau i ddechrau, tyfu a ffynnu ym Mlaenau Gwent a hefyd i feithrin perthynas â datblygwyr a buddsoddwyr mewnol newydd a allai fod yn ystyried dod â phrosiectau i'r ardal.

Mae'r tîm yn cynnig arweiniad, cefnogaeth a chyfeiriadau mewn perthynas â chymorth ariannol, tendro, marchnata a datblygu'r gadwyn gyflenwi.

Mae'r Cyngor hefyd wedi creu Hyb Busnes Blaenau Gwent, sy'n rhoi cyngor a chymorth busnes ar-lein i fusnesau ar gyllid; eiddo a thir; cyfleoedd buddsoddi; a digwyddiadau busnes lleol.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefannau: <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/busnes/> a <https://www.blaenaugwentbusinesshub.co.uk/Home>

Ffôn: 01495 355700

E-bost: business@blaenau-gwent.gov.uk

Cronfa Busnes Effaith BG

Mae Cronfa Busnes Effaith BG yn darparu cyllid grant o hyd at £2,000 (ac eithrio TAW) i gefnogi busnesau newydd ym Mlaenau Gwent. Rhaid i ymgeiswyr allu ariannu 20 y cant o gyfanswm y cyllid sydd ei angen. Mae gwariant cymwys yn cynnwys cymorth a chyngor arbenigol i ddatblygu syniad busnes; prynu offer hanfodol; deunyddiau marchnata; costau rhentu ar gyfer adeiladau busnes; ac atgyweirio a gwella safleoedd busnes.

I gael rhagor o wybodaeth:

Website: <https://www.blaenaugwentbusinesshub.co.uk/BusinessSupport/Financial-Support/BG-Effect-Business-Fund>

Ffôn: 01495 355700

E-bost: business@blaenau-gwent.gov.uk

Kick Start Plus

Mae Kick Start Plus yn fenter ar y cyd a ariennir gan UK Steel Enterprise ac a weinyddir gan y Cyngor. Mae'r fenter yn darparu grantiau o hyd at £1,000 i fusnesau newydd rhwng chwe mis a thair blynedd i'w helpu i ddatblygu ac ehangu. Mae'r costau cymwys yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â marchnata; TGCh; gwefannau; a hyfforddiant ac achrediadau.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/busnes/cymorth-a-thwf-busnes/cyllid-busnes/mentrau-cyllid-busnes/>

Ffôn: 01495 355700

E-bost: business@blaenau-gwent.gov.uk

Pen-y-bont ar Ogwr

Cymorth cyffredinol

Nod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y bont ar Ogwr yw rhoi cymorth, cyngor am ddim a gwybodaeth i fusnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol; safleoedd ac adeiladau; mentrau hyfforddi; a digwyddiadau lleol.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefannau: <https://business.bridgend.gov.uk/cy/> a <https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/>

Ffôn: 01656 815315

E-bost: Business@bridgend.gov.uk

Y Gronfa Cychwyn Busnes

Bydd rownd newydd y Gronfa Cychwyn Busnes yn agor ar gyfer ceisiadau o 8 Mehefin 2021, a bydd yn agored i fusnesau newydd a busnesau sydd wedi bod yn masnachu am lai na thair blynedd. Mae'n darparu grantiau rhwng £250 a £4,000,

a gall y grant ddarparu hyd at 50 y cant o'r costau cymwys. Gall y grant dalu costau offer cyfalaf, offer cyfrifiadurol, datblygu gwefannau a gwaith adeiladu i adeilad. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais ar-lein a chynllun busnes gyda rhagolwg llif arian 12 mis.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/cyllid/cronfa-dyfodol-economaidd/>

Ffôn: 01656 815315

E-bost: Business@bridgend.gov.uk

Y Gronfa Adfywio Arbennig

Mae'r Gronfa Adfywio Arbennig yn cynnig grantiau o rhwng £1,000 a £5,000 i fusnesau bach a chanolig i gefnogi hyd at 40 y cant o gostau prosiect cymeradwy. Mae gwariant cymwys yn cynnwys buddsoddi mewn offer cyfalaf, meddalwedd arbenigol, dylunio gwefannau a buddsoddi mewn adeiladau diwydiannol. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais ar-lein a chynllun busnes gyda rhagolwg llif arian 12 mis.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/parth-busnes/cronfa-adyfwio-arbennig/>

Ffôn: 01656 815334

E-bost: ieuan.sherwood@bridgend.gov.uk

Caerffili

Cymorth cyffredinol

Gall Tîm Cymorth Menter Busnes Bwrdeistref Sirol Caerffili roi cyngor ac arweiniad manwl i fusnesau newydd a busnesau sydd eisoes yn bodoli ar ystod eang o bynciau i weddu i'w hanghenion unigol.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.caerphilly.gov.uk/Business/Support,-promotion-and-advice/Business-Enterprise-Support-Team?lang=cy-gb>

Ffôn: 01443 866 220

E-bost: Business@Caerphilly.gov.uk

Grant Dechrau Busnes Caerffili

Cynllun grantiau hyblyg yw'r **Grant Dechrau Busnes** a gaiff ei ddarparu mewn partneriaeth ag UK Steel Enterprise a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae wedi ei gynllunio i helpu trigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n methu â chael mynediad at unrhyw ffynonellau eraill o gyllid i sefydlu busnes amser llawn am y tro cyntaf. Ni ddylai'r busnes fod wedi dechrau cyn i'r cais gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo.

Mae'n grant dewisol a gall ddarparu hyd at 50 y cant o'r costau prosiect cymwys hyd at uchafswm o £500.

Gallai'r costau cymwys gynnwys offer cyfalaf; offer TGCh; gwaith datblygu gwefan; marchnata untro; a gwaith adeiladu ar safle.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.caerphilly.gov.uk/Business/Business-grants-and-funding/Caerphilly-business-start-up-grant>

Ffôn: 01443 866 220

E-bost: Ffurflen.gyswilt

Cronfa Menter Caerffili

Mae Cronfa Menter Caerffili yn darparu cymorth cyfalaf a refeniw i fusnesau newydd a sefydledig o fewn ardal yr awdurdod lleol. Mae masnachwyr unigol, partneriaethau, cwmnïau cyfyngedig, partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig a grwpiau cymunedol i gyd yn gymwys i wneud cais am gymorth grant.

Gall costau prosiect cymwys gynnwys gwefannau a gwefannau e-fasnach; astudiaethau dichonoldeb; cynllunio busnes; costau marchnata untro; cyfarpar cyfalaf; caledwedd a meddalwedd TG; gwelliannau i eiddo ac isadeiledd i adeiladau masnachol, diwydiannol a manwerthu.

Mae grantiau ar gael ar gyfer costau cyfalaf o hyd at £10,000, ar gyfradd ymyrraeth o 50 y cant. Mae grantiau ar gael ar gyfer costau refeniw o hyd at £2,000, ar gyfradd ymyrraeth o 45 y cant.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.caerphilly.gov.uk/Business/Business-grants-and-funding/Caerphilly-enterprise-fund>

Ffôn: 01443 866 220

E-bost: Business@Caerphilly.gov.uk

Caerdydd

Gall Tîm Datblygu Economaidd Cyngor Caerdydd roi cyngor i fusnesau sy'n bodoli eisoes neu fusnesau newydd sy'n awyddus i leoli yn y ddinas ar ddod o hyd i fenthyciadau, grantiau ac ecwiti gan ystod o sefydliadau, a'u sicrhau.

Mae hefyd yn cyhoeddi manylion am weithdai ac unedau busnesau newydd sydd â'r nod o annog busnesau lleol newydd a busnesau lleol sy'n ehangu drwy gynnig unedau busnes sydd â thelerau hawdd eu defnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Busnes/Cymorth-a-Chyllid-i-Fusnesau/Pages/default.aspx>

E-bost: businessadvice@cardiff.gov.uk

Sir Gaerfyrddin

Cymorth cyffredinol

Mae gan wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin adran benodol i fusnesau ddod o hyd i wybodaeth am agweddau ar ardrethi busnes, cymorth busnes a gwastraff busnes.

Mae'r tîm busnes yn darparu cymorth busnes uniongyrchol i lawer o berchnogion busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes yn Sir Gaerfyrddin. Maent yn ymdrin â phob agwedd ar ymholiadau busnes ac yn darparu cymorth busnes i drethdalwyr, yn cynnig cyngor uniongyrchol a chymorth ar fuddsoddi i gwmnïau sy'n tyfu.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/cyllid/>

Ffôn: 01554 748813

E-bost: businessfund@carmarthenshire.gov.uk

Ceredigion

Mae gan wefan **Cyngor Sir Ceredigion** adran benodol ar gyfer busnesau i ddod o hyd i wybodaeth ar agweddau megis trethi busnes, cymorth busnes a gwastraff busnes.

Mae yna hefyd dudalen ar gyfer **Cyllid a Grantiau**, lle gall busnesau gael gafael ar wybodaeth am unrhyw gynlluniau cyllido cyfredol a chymorth ariannol.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.ceredigion.gov.uk/busnes/>

Ffôn: 01545 570881

E-bost: Ffurflen.gyswllt

Cronfa Fuddsoddi Eiddo Canol Tref Canolbarth Cymru

Mae Cronfa Fuddsoddi Eiddo Canol Tref Canolbarth Cymru ar gael i ddeiliaid a pherchnogion adeiladau masnachol a phreswyl yn y chwe thref darged ym Mhowys a Cheredigion.

Mae'n becyn cymorth a fydd yn cynnwys benthyciad, buddsoddiad preifat ac elfen o grant. Bydd angen i ymgeiswyr ddangos bod y mecanweithiau cyllid preifat, grant a benthyciad presennol wedi'u hystyried a'u disbyddu'n briodol cyn ceisio unrhyw arian atodol o'r cyllid grant.

Ei diben yw gwella blaen adeiladau a dod â gofod llawr masnachol a phreswyl gwag yn ôl i ddefnydd busnes buddiol. Lle gellir nodi angen lleol, byddai'r grant hefyd yn ariannu prosiectau datblygu a fyddai'n creu arwynebedd llawr masnachol/preswyl newydd.

Y lefel isaf o gostau prosiect cymwys y gellir eu hystyried yw £30,000, ac eithrio TAW. Cyfyngir ceisiadau i uchafswm grant o £200,000 (ac eithrio TAW) oni bai bod y cynllun yn eithriadol o ran ei effaith pan ellid ystyried grant hyd at £225,000 (ac eithrio TAW).

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.ceredigion.gov.uk/busnes/cyllid-a-grantiau/cronfa-fuddsoddi-eiddo-canol-tref-canolbarth/>

Ffôn: 01545 572065

E-bost: Gareth.Rowlands@ceredigion.gov.uk

Conwy

Cymorth cyffredinol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi sefydlu Canolfan Fusnes Conwy fel hwb canolog ar gyfer cymorth busnes yng Nghonwy, gyda thîm sy'n ymroddedig i gefnogi busnesau; cynnal digwyddiadau ar gyfer busnes; helpu busnesau i ddod o hyd i adeiladau; a darparu cyfleusterau cyfarfod a chynadledda.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefannau: <https://www.conwy.gov.uk/cy/Business/Business.aspx> a <https://conwybusinesscentre.com/?lang=cy>

Ffôn: 01492 574574

E-bost: businesscentre@conwy.gov.uk

Grant Cymorth Busnes Conwy

Cynllun grant yw hwn i gefnogi twf busnesau, mentrau cymdeithasol a phrosiectau arallgyfeirio ffermydd o fewn ffiniau'r awdurdod lleol a fydd yn creu swyddi neu'n cynyddu cynhyrchiant neu drosiant. Gall busnesau newydd neu sefydledig wneud cais am grantiau o hyd at £1,500 i'w helpu i brynu offer cyfalaf; deunyddiau marchnata; a hyfforddiant arbenigol a ffioedd proffesiynol arbenigol.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://conwybusinesscentre.com/cy/conwy-business-support-grant/>

Ffôn: 01492 574574

E-bost: businesscentre@conwy.gov.uk

Sir Ddinbych

Gall Cyngor Sir Ddinbych hefyd roi cymorth, cyngor a gwybodaeth i fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae ei wefan yn rhoi manylion am nifer o feysydd sy'n gysylltiedig â busnes gan gynnwys: dechrau busnes, ardrethi busnes, hyfforddiant a digwyddiadau a pharhad busnes.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/busnes/busnes.aspx>

Ffôn: 01824 706000

E-bost: Ffurflen Ymholiad

Sir y Fflint

Mae gwefan **Cyngor Sir y Fflint** yn cynnwys ystod o gyngor a gwybodaeth i fusnesau, gan gynnwys dechrau busnesau a'u hariannu; cyfeirlyfr busnesau lleol; ac ardrethi busnes.

Gall y Tîm Datblygu Busnes drafod amgylchiadau busnesau unigol a rhoi manylion am gymorth busnes a grantiau busnes sydd ar gael yn Sir y Fflint.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Business/Home.aspx>

Ffôn: 01352 703040

E-bost: busdev@flintshire.gov.uk

Gwynedd

Cymorth cyffredinol

Mae gwefan Cyngor Gwynedd yn darparu gwybodaeth am gymorth, cefnogaeth a hyfforddiant sydd ar gael i fusnesau, ynghyd â ffynonellau cyllid.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Busnesau.aspx>

Ffôn: 01286 679231

E-bost: business@gwynedd.llyw.cymru

Y Gronfa Benthyciadau Busnes

Gall busnesau bach a chanolig wneud cais i'r Gronfa Benthyciadau Busnes. Pwrpas y Gronfa yw sefydlu neu ddatblygu busnes ac nid i ad-dalu unrhyw ddyledion sy'n bodoli eisoes neu fenthyciadau eraill.

Bydd benthyciadau bach gan y Gronfa yn werth rhwng £25,000 a £100,000 gyda'r cyfle i fenthycia symiau uwch hyd at £750,000. Bydd hyd tymor arferol ar gyfer benthyciad bach rhwng 36 a 60 mis.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Arian,-cyllid-a-grantiau/Grantiau-a-chymorth-ariannol/Cronfa-Benthyciadau-Busnes.aspx>

Ffôn: 01286 679231

E-bost: business@gwynedd.llyw.cymru

Cronfa Benthyciadau Canol Tref

Gall perchnogion adeiladau sydd wedi'u lleoli yng nghanol Bangor, Bethesda, Caernarfon a Phenygroes wneud cais am fenthyciadau i wella eiddo er mwyn parhau i fod yn berchen, i werthu, i rentu neu i ddatgloi safle gwag neu safle segur. Mae gwerth benthyciadau o leiaf £5,000, heb unrhyw werth uchaf, hyd at y balans sy'n weddill o fewn y gronfa.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Arian,-cyllid-a-grantiau/Grantiau-a-chymorth-ariannol/Grantiauachymorthariannol.aspx>

Ffôn: 01286 679231

E-bost: business@gwynedd.llyw.cymru

Cynllun Grant ISO

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i gynorthwyo busnesau bach a chanolig yng Ngwynedd i ennill achrediadau ISO sy'n gosod safonau byd-eang ar gyfer cynhyrchion, gwasanaethau a systemau, er mwyn sicrhau ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd.

Mae cynllun grant ar gael sy'n cyfrannu tuag at gostau ymgynghorydd i weithio gyda busnesau er mwyn cyrraedd y safon angenrheidiol ar gyfer ardystiad. Nid yw cost yr ardystiad ei hun yn cael ei gynnwys yn y cynllun

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Arian,-cyllid-a-grantiau/Grantiau-a-chymorth-ariannol/Cynllun-Grant-ISO.aspx>

Ffôn: 01286 679231

E-bost: business@gwynedd.llyw.cymru

Cymorth i Fentro

Darperir Cymorth i Fentro o dan raglen Arfor. Mae'n darparu cefnogaeth ymarferol neu ariannol i fusnes oresgyn y rhwystrau sy'n atal eu twf a chreu swyddi. Ei nod yw cefnogi busnesau sy'n creu cynhyrchion fel nwyddau, bwyd a diod, meddalwedd gyfrifiadurol, cynrychiadau teledu mewn cymunedau gwledig sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg yng Ngwynedd.

Gall y cynllun ddarparu cyllid i sicrhau sgiliau, helpu gyda chost offer, neu ddarparu cyfraniad dros dro at gostau rhentu adeilad.

Uchafswm y gyllideb ar gyfer y pecyn Cymorth i Fentro yw £250,000. Nid oes isafswm nac uchafswm ar gyfer ceisiadau unigol; fodd bynnag, yn fras, rhagwelir y bydd y mwyafrif o geisiadau am gyllid rhwng £5,000 a £10,000.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Arian,-cyllid-a-grantiau/Grantiau-a-chymorth-ariannol/Cymorth-i-fentro.aspx>

Ffôn: 01286 679231

E-bost: business@gwynedd.llyw.cymru

Ynys Môn

Cymorth cyffredinol

Mae tudalennau gwe cymorth busnes Cyngor Ynys Môn yn cynnwys manylion am fusnesau lleol; ffynonellau grantiau a chyllid; a Chanolfan Fusnes Ynys Môn, sy'n darparu gwasanaethau a chyfleusterau cymorth busnes i fusnesau sy'n gweithio ar yr ynys.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Busnes/Busnes.aspx>

Ffôn: 01248 752480

E-bost: econdev@ynysmon.gov.uk

Merthyr Tudful

Mae gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn darparu cefnogaeth a chyngor i fusnesau, gan gynnwys grantiau a chyllid sydd ar gael; a chyngor mwy cyffredinol.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.merthyr.gov.uk/business/support-and-advice-for-businesses/?lang=cy-GB&>

Ffôn: 01685 725000

E-bost: Ffurflen.gyswllt

Sir Fynwy

Mae tîm Busnes a Menter Cyngor Sir Fynwy yn cyngori ac yn cefnogi busnesau yn y sir. Mae'n darparu gwybodaeth am ddechrau a thyfu busnes; cefnogi entrepreneuriaid ifanc; dod o hyd i gyllid; ac arloesedd gwledig.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefannau: <http://monmouthshire.biz/>

Ffôn: 01633 748316

E-bost: info@monmouthshire.biz

Castell-nedd Port Talbot

Cymorth cyffredinol

Mae gwefan Busnes CNPT Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn darparu manylion am gymorth busnes a ddarperir gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys manylion am gymorth i bobl sy'n dechrau busnes yn yr ardal, neu sy'n adleoli busnes sy'n bodoli eisoes.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: www.npt-business.co.uk

Ffôn: 01639 686835

E-bost: business@npt.gov.uk

Cynllun Innov8

Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot sy'n gweithredu'r Cynllun Innov8. Mae'r cynllun yn darparu ystod o gefnogaeth a chyngor i bobl 18+ oed ar ddechrau, datblygu a thyfu busnes.

Mae'r rhaglen yn darparu cymorth grant i dalu hyd at 50 y cant o'r costau cychwynnol cymwys hyd at uchafswm o £1,000. Mae'r holl gostau cyfalaf (ac eithrio cerbydau) yn gymwys yn ogystal â chostau cyn dechrau, fel stoc, gorbenion a marchnata.

Mae cyllid yn amodol ar y cleient yn sefydlu ei fusnes yng Nghastell-nedd Port Talbot a chwblhau cwrs dechrau busnes cydnabyddedig yn llwyddiannus.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: www.npt-business.co.uk

Ffôn: 01639 765695

E-bost: business@npt.gov.uk

Grant Dechrau Busnes UK Steel Enterprise

Mae'r fenter hon ar y cyd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'r UK Steel Enterprise Limited yn rhoi cymorth ariannol i fusnesau newydd sy'n llai na 24 mis oed ac sydd wedi'u lleoli ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r grant yn cynnwys hyd at 100 y cant o'r costau cymwys, gydag uchafswm o £500. Mae'r costau cymwys yn cynnwys offer cyfalaf; offer TGCh; gwaith datblygu gwefan; marchnata; a gwaith adeiladu i adeilad.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: www.npt-business.co.uk

Ffôn: 01639 765695

E-bost: s.wyndham@npt.gov.uk

Casnewydd

Cymorth cyffredinol

Mae tîm Datblygu Economaidd Cyngor Dinas Casnewydd yn darparu cymorth i fusnesau newydd a sefydledig, gan gynnwys cymorth ariannol, lleoli yng Nghasnewydd, ac ar dir ac eiddo.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <http://www.newport.gov.uk/cy/Business/Business-home-page.aspx>

Ffôn: 01633 656656

E-bost: business.services@newport.gov.uk

Grant Cyngor Dinas Casnewydd / UK Steel Enterprise ar gyfer busnesau newydd

Mae Cyngor Dinas Casnewydd ac UK Steel Enterprise yn cynnig grant dewisol i fusnesau newydd sydd heb eu sefydlu eto a busnesau hyd at 12 mis oed.

Gall busnesau gael hyd at 40 y cant o gostau cymwys a rhesymol. Y lleiafswm grant sydd ar gael yw £250 ar gyfer cyfanswm gwariant o £625. Yr uchafswm grant sydd ar gael yw £1,500 ar gyfer isafswm gwariant o £3,750. Mae costau cymwys yn

cynnwys rhent y flwyddyn gyntaf ar adeiladau masnachol; peiriannau ac offer; offer TGCh; a meddalwedd, gwefannau a hyfforddiant cysylltiedig.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <http://www.newport.gov.uk/cy/Business/Financial-assistance/Grants/Grants.aspx>

Ffôn: 01633 656656

E-bost: business.services@newport.gov.uk

Sir Benfro

Cymorth cyffredinol

Mae tîm cymorth busnes Cyngor Sir Penfro yn darparu cyngor a chymorth i fusnesau, unigolion a sefydliadau eraill. Ei nod yw meithrin diwylliant mentrus ac entrepreneuraidd llwyddiannus yn economi Sir Benfro.

Mae cymorth wedi'i dargedu ar gael ar gyfer sectorau busnes penodol i gynorthwyo gyda'r broses o ddatblygu prosiectau hyfyw a chreu swyddi.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.sir-benfro.gov.uk/busnes>

Ffôn: 01437 776167

Powys

Cymorth cyffredinol

Mae gwefan Cyngor Sir Powys yn darparu lincs i ystod o wybodaeth i fusnesau, gan gynnwys ffynonellau grantiau a chyngor, a gwasanaethau i fusnesau.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://cy.powys.gov.uk/article/4986/Cyngor-i-fusnesau>

Rhondda Cynon Taf

Cymorth cyffredinol

Mae Is-adran Adfywio a Chynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweithio gyda'r gymuned fusnes leol a phartneriaid. Gall helpu gyda chynngor ar gynllunio, dod o hyd i eiddo a chyllid grant.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Business/BusinessSupportandAdvice/BusinessSupportandAdvice.aspx>

Ffôn: 01437 281124

E-bost: regeneration@rctcbc.gov.uk

Cronfa Buddsoddi Busnesau

Mae'r rhaglen grant hyblyg hon yn cael ei darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'n darparu cymorth ariannol i fusnesau bach a chanolig a mentrau preifat a chymdeithasol newydd neu rai sy'n bodoli eisoes ac sydd wedi'u lleoli, neu'n bwriadu lleoli, ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Gall grantiau dalu hyd at 50 y cant o gostau prosiect cymwys, ac eithrio TAW.

Mae'r grantiau sydd ar gael ar gyfer busnesau cymwys yn y cartref yn amrywio o £500 i £1,500, ac mae'r grantiau ar gyfer adeiladau masnachol cymwys yn amrywio o £1,500 i £10,000.

Mae cymorth ariannol ar gael ar gyfer busnesau bach a chanolig amser llawn presennol a busnesau newydd sy'n cyflogi llai na 250 o bobl yn Rhondda Cynon Taf.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Business/FundingandGrants/BusinessEnterpriseGrant.aspx>

Ffôn: 01443 281124

E-bost: regeneration@rctcbc.gov.uk

Grant Gwrthsefyll Llifogydd Canol Trefi

Mae'r Grant Gwrthsefyll Llifogydd yn rhoi cefnogaeth i fusnesau i weithredu mesurau i wella eu gallu i wrthsefyll llifogydd yn y dyfodol. Mae Busnesau bach a chanolig eu maint a leolir yn ardaloedd manwerthu Aberdâr; Glynrhedynog; Llantrisant; Aberpennar; Pontypridd; Y Porth; Tonypany; a Threorci yn gymwys i wneud cais am y cymorth grant. Bydd blaenoriaeth i'r busnesau hynny sy'n gallu darparu tystiolaeth eu bod nhw wedi'u heffeithio gan y llifogydd yn ystod Storm Dennis.

Gall y grant dalu hyd at 75 y cant o gostau prosiect hyd at £7,500.

Mae enghreifftiau o'r math o waith y gallai'r grant ei gefnogi yn cynnwys drysau mewnol; llifddorau i ddrysau; gorchuddion llawr a sgertin UPVC; byrddau gwrthsefyll lleithder ar gyfer waliau mewnol, a chodi pwyntiau pŵer yn uwch.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Business/BusinessSupportandAdvice/TownCentreFloodResilienceGrant.aspx>

Ffôn: 01443 281124

E-bost: adfywio@rctcbc.gov.uk

Abertawe

Cymorth cyffredinol

Mae gwefan Cyngor Abertawe yn cynnwys ystod o wybodaeth am gyllid, rhedeg busnes, cymorth recriwtio a datblygu eiddo.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.abertawe.gov.uk/cyngorbusnes>

E-bost: business@swansea.gov.uk

Grant Datblygu a Gwella Eiddo

Mae cymorth ariannol ar gael i ddod â safleoedd segur neu wag yn ôl i ddefnydd buddiol ac i sicrhau gwelliannau adeilad a blaen siop o ansawdd da.

Gall y cyllid hwn fod yn uchafswm o 40 y cant o gyfanswm y costau, a chaiff ei asesu fesul achos unigol, gan ystyried y buddion economaidd ac amgylcheddol y mae'r prosiect yn eu darparu. I fod yn gymwys ar gyfer y grant, rhaid i'r cynllun gorffenedig ddarparu ar gyfer swyddi newydd.

Ymhlith yr eitemau sy'n gymwys i gael grant mae ffasadau adeiladau; toeau; blaenau siopau; lloriau; nenfydau; grisiau; ail-weirio; ac arwyddion.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.abertawe.gov.uk/ariannubusnesau>

Ffôn: 07826 950439

E-bost: business@swansea.gov.uk

Torfaen

Economi, Menter ac Amgylchedd Torfaen

Mae cymorth Economi, Menter ac Amgylchedd Torfaen yn darparu cymorth uniongyrchol ac arbenigol i fusnesau yn y fwrdeistref.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.southwalesbusiness.co.uk/cy/Hafan.aspx>

Ffôn: 01633 648083

E-bost: info@southwalesbusiness.co.uk

Bro Morgannwg

Cymorth cyffredinol

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg ei Dîm Cymorth Busnes ei hun a all helpu busnesau sy'n dechrau a busnesau sy'n bodoli eisoes.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/working/Business-Support/Business-Advice-and-Guidance.aspx>

Ffôn: 01446 704636

E-bost: economic@valeofglamorgan.gov.uk

Wreccsam

Cymorth cyffredinol

Mae gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn nodi mai ychydig iawn o grantiau sydd ar gael yn eang yn ardal Bwrdeistref Sirol Wreccsam, fodd bynnag, yn dibynnu ar y busnes unigol, efallai y bydd cyllid ar gael.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwefan: <https://www.wrexham.gov.uk/>

Ffôn: 01978 292092

E-bost: businessline@wrexham.gov.uk

